O 'MA NAWR

Cerdded ar y tywod
Mas yn y bae
Gwylio'r gwylanod
Yn aros am y trai
Cesig gwyn ar garlam
Yn curo ar y traeth
A mas ar y tonnau -
Pysgotwyr wrth eu gwaith.

Daw'r gwynt yn syth o'r cefnfor
Pen llanw ddaw cyn hir
Mae'r llong yn barod bellach
I gefni ar y tir
Mae'n amser codi angor
Troi'r trwyn am for y de
Efallai *Venezuela*
Efallai unrhyw le.

O 'ma nawr, o 'ma nawr.

(Ces fy) magu ger yr harbwr
A'r llongau wrth y cei
Ac eistedd ar y cewyll
Gyda'r morwyr fyddwn i
Yn gwrando ar eu straeon
Am wledydd pell di-ri'
I wrando am y lleisiau
Fyddai'n galw arna' i.

Caria fi i'r pellter
Ar gefn y tonnau gwyn
Mae'r gorwel yn galw arna' i
Dangos i mi seren
I'm tywys at y lan
A phorthladd diogel i'm croesawu i.

© Geraint Griffiths 2006